**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER.***

**WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* 16.10.20**

Wel dyma ni wythnos arall wedi gwibio heibio, a finne'n cael y pleser o'ch cyfarch ar ddydd Gwener eto. Unwaith eto, mor braf yw cael dweud bod pethau'n mynd yn hwylus yn yr ysgol, a diolchir i bawb o fewn cymuned yr ysgol am sicrhau bod hynny'n gallu digwydd. Gyda chydweithrediad pawb, mi fydd pawb gobeithio, yn gallu cadw'n iach a diogel.

Mae llawer o sôn yn y cyfryngau bod cau i lawr mwy llym yn dod i rym, ac unwaith y cawn unrhyw wybodaeth am sefyllfa ysgolion yng Nghymru, byddwn yn eich hysbysu yn syth.

*Here we are again, another week has just flown by, and I have the pleasure of greeting you all on a Friday once more. Once again, it's so good to be able to say that things are going well in school, and everyone within the school's community is thanked for enabling this to happen. With everyone's co-operation, we will all, hopefully, keep safe and well.*

*There is a great deal of speculation in the media regarding further strict measures being enforced, and once we receive information regarding schools in Wales, we will contact you immediately.*

## PARCIO – *PARKING.*

Mae'n werth i ni atgoffa ein gilydd y gofynnir yn garedig i BAWB gadw at y rheolau a osodir – sef nad oes neb i barcio ar y llinellau zig zag, ar fynedfeydd tai cyfagos, mewn stâd breifat nac ar arhosfan y bysiau – ar ddechrau a diwedd y dydd.

Os yw'n amhosib parcio mewn lle diogel yn agos i'r ysgol, mae'n werth nodi ei bod yn bosib parcio yn rhad ac am ddim ym maes parcio'r dref ger Iceland ar hyn o bryd.

*It is worth reminding ourselves that EVERYONE is asked to adhere to the rules of not parking on the zig zag lines, on the entrances to neighbouring houses, in a private estate or the bus stop – at the beginning and end of the day.*

*If it's impossible to park in a safe place near the school, it's worth noting that it's possible to park free of charge in the town's car park near Iceland at present.*

## YR AWR FAWR.

Chwi gofiwch i ni anfon gwybodaeth ym mis Medi am weithgareddau digidol a drefnir gan yr Urdd ar ddydd Mawrth o 6.15 – 7.15 p.m. ar gyfer y rhai sy'n aelodau o'r Urdd. (Mae posib ymaelodi â'r Urdd ar y wê). Gwyddom fod yna ddisgyblion o'r ysgol yn cyfranogi yn y gweithgareddau hyn a braf iawn fyddai gweld mwy eto yn gwneud. Bydd gweithdy Celf a Chrefft ddydd Mawrth nesaf (20.10) a Gweithdy Uwchgylchu y dydd Mawrth dilynol (27.10).

*You will recall that we sent information in September regarding the digital activities organised by the Urdd on Tuesdays from 6.15 – 7.15 p.m., for those who are Urdd members. (Membership can be paid on line). We know that there are pupils from Ysgol Glanrafon who participate in these activities, and it would be good to see more doing so again. An Arts and*

*Crafts workshop will be held next Tuesday (20.10) and a Re-cycling Workshop the following Tuesday (27.10).*

## GWAITH CARTREF - *HOMEWORK*

Atgoffir pawb fod y tasgau Gwaith Cartref am yr hanner tymor wedi eu mewngofnodi i SeeSaw (Cyfnod Sylfaen) a Teams (Cyfnod Allweddol 2) yr wythnos diwethaf, rhag ofn bod unrhyw un heb eu gweld.

*You are reminded that the Homework tasks for the half term were uploaded on SeeSaw (Foundation Phase) and Teams (Key Stage 2) last week – just in case you haven't seen them.*

## DYDDIADAU PWYSIG – *IMPORTANT DATES.*

| | |
|---|---|
| **19.10.20** | P.C. Marc Jones yn siarad am Ddiogelwch y Rhyngrwyd gyda disgyblion Blwyddyn 3 a 4 – *P.C. Marc Jones to address Years 3 and 4 pupils on Internet Safety.* |
| **21.10.20** | Gwasanaeth diolchgarwch rhithiol yr ysgol – *School's virtual harvest thanksgiving service.* |
| **22.10.20** | Diwrnod Imiwneiddio disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 rhag y ffliw. – *Flu immunisation Day for Reception to Year 6 pupils.* |
| **22.10.20** | 4 p.m. – Enwebiadau i mewn ar gyfer dau gynrychiolydd rhieni ar y Llywodraethwyr – *Closing date for the nomination of two parent representatives on the school's Governing Body.* |
| **23.10.20** | Diwrnod gwisgo yn lliwiau'r hydref – *Autumn Colours Day.* |
| **23.10.20** | P.C. Marc Jones yn siarad am Ddiogelwch y Rhyngrwyd gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 – *P.C. Marc Jones to address Years 5 and 6 pupils on Internet Safety.* |
| **23.10.20** | Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.* |
| **02.11.20** | Ysgol yn ail agor wedi'r gwyliau hanner tymor – *School re-opens following the half term holiday.* |
| **06.11.20** | Dyddiad cau i gofrestru disgyblion Blwyddyn 6 ar gyfer addysg uwchradd – Medi 2021 – *Closing date to register Year 6 pupils for secondary education – September 2021.* |
| **20.11.20** | Dyddiad olaf i gofrestru disgyblion ar gyfer y Derbyn – Medi 2021- *Closing date to register Reception pupils for September 2021.* |

**CADWCH YN DDIOGEL, A MWYNHEWCH Y PENWYTHNOS – *KEEP SAFE, AND HAVE A GOOD WEEK END.***